O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2820 (Cy. 298)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cwm-gwrach i Gylchfan Resolfen, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*9 Tachwedd 2012*
Yn dod i rym	*19 Tachwedd 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arni.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Tachwedd 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cwm-gwrach i Gylchfan Resolfen, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012 .

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 19 Tachwedd 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig yn cael eu symud ymaith yn barhaol;